Withdrawn on 20 October 2020 as it is over 2 years old.




# Newyddion

Newyddion y CE 53 - Ebrill 2016

**Cynnwys**


- Ymddiriedolwyr: ydych chi'n gwybod y cwestiynau y mae angen i chi eu gofyn?
- Ydych chi wedi darllen ein canllaw ar gronfeydd wrth gefn eto?
- Trawsffurfio eich comisiwn
- Mae'r gwasanaeth cofrestru ar-lein newydd wedi cyrraedd
- Galluogi elusennau i wella eu gwaith
- Diweddaru canllawiau ar gyfer rheoli anawsterau ariannol
- Cyfarfod cyhoeddus Southampton
- Ariannu sefydliadau anelusennol: canllawiau drafft newydd
- Diweddaru canllawiau ar gyfer Cymorth Rhodd: elusennau a'u his-gwmnïau masnachu
- Ydy'ch manylion cyswllt wedi'u diweddaru?
- Deddf Elusennau (Gwarchod a Buddsoddi Cymdeithasol)
- Canllaw newydd i'r berthynas rhwng y cadeirydd a'r prif weithredwr
- Ffeilio cyfrifon yn hwyr


## Ymddiriedolwyr: ydych chi'n gwybod y cwestiynau y mae angen i chi eu gofyn?

Ydych chi'n rhan o fwrdd ymddiriedolwyr effeithiol? Oes cynllun gwych gan eich bwrdd ar gyfer llwyddiant yr elusen yn y dyfodol? All eich elusen ymdopi ag unrhyw anawsterau ariannu sy'n ei hwynebu nawr? Os nad ydych yn sicr o'r atebion hyn, gallwch ddefnyddio ein rhestr wirio 'Llywodraethu, cyllid a gwydnwch elusennau: 15 cwestiwn y dylai ymddiriedolwyr eu gofyn' i helpu gyda'r cwestiynau hyn a chwestiynau allweddol eraill a fydd yn eich helpu i weithredu'n effeithiol. Gall y 15 cwestiwn yma eich helpu i:

- lywio trafodaethau am yr hyn y mae'ch elusen yn ei wneud a sut y mae'n gwneud hynny
- sicrhau bod eich elusen yn ddiogel yn ariannol, hyd yn oed mewn adegau economaidd anodd
- datblygu cynlluniau ac amserlenni ar gyfer gweithredu
- dangos eich bod chi'n ymateb yn briodol i newid

Defnyddiwch y dolenni a ddarperir yn y rhestr wirio i gael canllawiau'r comisiwn ar:

- strategaeth - cyfleoedd a risgiau
- iechyd ariannol
- llywodraethu, gan gynnwys diogelu
- gwneud y defnydd gorau o adnoddau

## Ydych chi wedi darllen ein canllaw ar gronfeydd wrth gefn eto?

Dylai ymddiriedolwyr deimlo eu bod nhw'n cael eu cefnogi a bod cymorth wrth law er mwyn iddynt allu gwneud y penderfyniad cywir ynghylch faint i'w gadw mewn cronfeydd wrth gefn, heb deimlo bod baich gormodol arnynt. Dyna pam ein bod ni wedi diweddaru ein canllaw i'w wneud yn gliriach ac yn symlach. Mae'n bwysig bod polisi gan elusennau sy'n esbonio eu hymagwedd at gronfeydd wrth gefn. Gwyddom nad oes un lefel neu hyd yn oed un ystod o gronfeydd wrth gefn sy'n addas i bob elusen. Dylai unrhyw darged a osodir gan ymddiriedolwyr ar gyfer lefel y cronfeydd wrth gefn i'w dal, neu benderfyniad nad oes angen unrhyw gronfeydd wrth gefn, adlewyrchu amgylchiadau arbennig yr elusen unigol. Trowch at ein canllaw i gael esboniad am y canlynol:

- beth yw cronfeydd wrth gefn
- pwysigrwydd cael polisi cronfeydd wrth gefn a sut i ddatblygu polisi
- y gofynion cyfreithiol ar gyfer cyhoeddi eich polisi, ac adrodd arno
- beth ddylai ymddiriedolwyr ei wneud i oruchwylio cronfeydd wrth gefn eu helusen yn briodol
- pwysigrwydd cronfeydd wrth gefn o ran cynnal gweithgareddau eich elusen

Fel rheoleiddiwr mae terfyn ar faint y gallwn ei wneud a deallwn mai penderfyniadau unigol yw'r rhain i'r ymddiriedolwyr eu gwneud. Cyn adolygu'r canllaw yn llawn yn nes ymlaen y flwyddyn hon, gobeithiwn y bydd yr offer yma yn eich helpu i reoli unrhyw anawsterau yn briodol ac â hyder. Mae hefyd yn bwysig bod ymddiriedolwyr yn adolygu lefel eu cronfeydd wrth gefn yn gyson trwy gydol y flwyddyn. Os nad oes gan elusen y cronfeydd wrth gefn y mae'n meddwl y mae ei hangen arni, mae'n agored i fwy o risg, a byddem yn annog ymddiriedolwyr i roi sylw i hyn. Darllen rhagor am gronfeydd wrth gefn.

Withdrawn on 20 October 2020 as it is over 2 years old.

## Trawsffurfio eich comisiwn

Bydd pob elusen rywbryd neu'i gilydd yn rhyngweithio â'r comisiwn, boed i ffeilio ei chyfrifon, cwblhau ei ffurflen flynyddol, neu ddiweddaru manylion ei helusen. Rydym wedi ymrwymo i wneud taith y defnyddiwr trwy wasanaethau hanfodol yn gyflymach, yn haws, yn fwy greddfol ac yn bennaf oll yn fwy cywir. Yn y dyfodol agos byddwn yn lansio arolwg digidol ac mae angen eich adborth parhaus chi arnom i'n helpu i ganfod heriau o fewn ein systemau presennol.

Fel rhan o'n trawsffurfiad digidol, byddwn yn lansio ffurflen flynyddol 2016 yn y misoedd nesaf. Ewch i'n hafan i gael yr wybodaeth ddiweddaraf.

## Mae'r gwasanaeth cofrestru ar-lein newydd wedi cyrraedd

Yn ddiweddar lansiodd y comisiwn beta cyhoeddus o'r gwasanaeth cofrestru ar-lein newydd. Mae'n cynnig gwelliannau i ddefnyddwyr gan gynnwys:

- ffurflen gais gliriach
- ysgogi a chwblhau awtomatig
- cyflwyno setiau o gwestiynau wedi'u teilwra ar gyfer mathau o elusennau
- cyfleuster gwirio enw elusen
- argraffu copi caled
- amserau prosesu cyflymach

Dyma'r cyntaf o wasanaethau digidol newydd y comisiwn, sy'n trawsffurfio'r profiad y mae'r ymddiriedolwyr yn ei gael gyda'r comisiwn, a fydd yn 'ddigidol yn ddiofyn'. Bydd y gwasanaeth yn ei gwneud hi'n haws i ymgeiswyr roi'r wybodaeth y mae ei hangen ar y comisiwn er mwyn gallu gwneud penderfyniad cofrestru cyflymach os yw hynny'n briodol.

Bydd y fersiwn beta newydd yn rhedeg ochr yn ochr â'r gwasanaeth cofrestru presennol am gyfnod byr, gan roi cyfle i ymgeiswyr ymgyfarwyddo â'r gwasanaeth newydd a gwneud cais drwy ddefnyddio'r gwasanaeth newydd. Byddem yn annog defnyddwyr i roi adborth i ni ar y gwasanaeth newydd wrth i ni barhau i'w fireinio. Ewch i'n hafan am ragor o wybodaeth.

## Galluogi elusennau i wella eu gwaith

Nid yw ein hymholiadau bob amser wedi'u seilio ar gwynion neu faterion cydymffurfio. Mae peth o'n gwaith achos diweddar yn tynnu sylw at achosion lle rydym wedi gweithio gydag elusen i'w galluogi i barhau â'i chenhadaeth. Er enghraifft:

- gofynnodd Cyngor Bwrdeistref Metropolitan Barnsley am gyngor ar ran elusen Ysgol Lacewood ar werthu safle ei hen ysgol i ariannu grantiau addysgol ar gyfer pobl ifanc yr ardal
- cafodd Shakespeare Birthplace Trust gyngor proffesiynol ar werthu tir heb fod o ddiddordeb hanesyddol - roedd y comisiwn wedi egluro pa bwerau oedd ganddi fel elusen

## Diweddaru canllawiau ar gyfer rheoli anawsterau ariannol

Cydnabyddwn fod elusennau'n gweithredu mewn amgylchedd heriol iawn, a bod nifer o elusennau yn wynebu'r her ddyddiol o gael dau ben llinyn ynghyd. Dyma pam ei bod hi mor bwysig bod ymddiriedolwyr â rheolaeth dros gyllid eu helusen. Mae ein canllaw diwygiedig yn argymell bod ymddiriedolwyr yn adolygu sefyllfa ariannol eu helusen a'i pherfformiad yn erbyn cyllidebau a rhagolygon ar gyfer y dyfodol o leiaf unwaith y mis. Mae'n esbonio:

- dyletswyddau ymddiriedolwyr o ran diogelu asedau elusen
- beth mae angen i ymddiriedolwyr ei wybod am asedau'r elusen ac a yw'r defnydd ohonynt wedi'i gyfyngu
- pryd y gall elusen wynebu ansolfedd os nad yw'n gallu talu ei dyledion
- pryd y gall ymddiriedolwyr fod yn atebol i dalu unrhyw ddyledion pan fyddant yn daladwy

Mae ymddiriedolwyr yn cael eu hannog i adolygu cyllid eu helusen yn gyson. Dylai graddfa'r adolygiad amrywio yn ôl maint a sefydlogrwydd yr elusen. Gall y dadansoddiad hwn o dueddiadau ac amrywiadau ariannol o'r rhagolygon yn y gyllideb helpu i ganfod problemau ariannol yn gynnar.

Withdrawn on 20 October 2020 as it is over 2 years old.

## Cyfarfod cyhoeddus Southampton

Ar ddydd Llun 29 Chwefror cynhaliodd y comisiwn ei gyfarfod cyhoeddus byw cyntaf ar-lein fel rhan o ymdrech i wella gwasanaethau a rhyngweithio drwy dechnoleg ddigidol. Mae llawer o welliannau digidol i'n gwasanaethau a'n dulliau cyfathrebu ar y gweill a thrwy hyn rydym yn gobeithio denu cynulleidfa ehangach a'i gwneud hi'n haws i ymddiriedolwyr gyrchu ein gwybodaeth a'n gwasanaethau.

Roedd pigion allweddol y dydd yn cynnwys:

- araith gan ein Cadeirydd William Shawcross yn gofyn i elusennau gydweithio a dangos eu bod nhw'n haeddu'r lle breintiedig sydd ganddynt mewn cymdeithas
- sesiynau ar:
    - y gwersi a ddysgwyd o'n gwaith achos
    - yr agenda digidol yn ddiofyn, gan gynnwys beth mae hyn yn ei olygu ar gyfer ein gwasanaethau digidol sydd ar gael i elusennau
    - ein canllaw codi arian newydd
    - trafodaeth ar y goblygiadau os yw elusennau yn cyfrannu at ein cyllid

Mae trawsgrifiad o araith William ar gael ar GOV.UK. I gael manylion am y cyfarfod cyhoeddus nesaf ewch i'n hafan lle y bydd recordiad o gyfarfod cyhoeddus mis Chwefror ar gael yn fuan.

## Ariannu sefydliadau anelusennol: canllawiau drafft newydd

Gall elusennau hyrwyddo eu dibenion drwy ariannu elusennau eraill, neu mewn rhai achosion, sefydliadau nad ydynt yn elusennau, i gyflawni gwaith neu brosiectau elusennol. Gall y cyllid grant hwn fod yn fanteisiol i achosion neu grwpiau sy'n ei chael hi'n anodd fel arall i gael y cymorth y mae ei angen arnynt. Os ydych chi'n ystyried rhoi grant i sefydliad nad yw'n elusen, gwnewch yn siŵr eich bod chi'n deall y risgiau a'r ffiniau cyn i chi ddechrau. Cofiwch, nid oes rhaid i sefydliadau nad ydynt yn elusennau gynnig budd cyhoeddus neu lynu wrth amcanion elusennol. Fodd bynnag, rhaid i unrhyw grant rydych yn ei roi gael ei ddefnyddio ar gyfer gweithgareddau sydd o fewn dibenion eich elusen yn unig. Rhai o'r ffactorau rydym yn disgwyl i ymddiriedolwyr eu hystyried:

- sicrhau eich bod chi'n deall dibenion eich elusen chi
- cymryd camau rhesymol i asesu risgiau a chynnal prosesau diwydrwydd dyladwy neu sicrwydd ar y sefydliad
- cael systemau a gweithdrefnau llywodraethu priodol yn eu lle ar gyfer gwneud penderfyniadau am grantiau

Rydym wedi cyhoeddi'r canllaw drafft newydd hwn i helpu ymddiriedolwyr i wneud penderfyniadau gwybodus am ariannu sefydliadau nad ydynt yn elusennau. Gwerthfawrogwn eich adborth, felly anfonwch unrhyw sylwadau neu awgrymiadau at policydgr@charitycommission.gsi.gov.uk.

## Diweddaru canllawiau ar gyfer Cymorth Rhodd: elusennau a'u his-gwmnïau masnachu

Bydd rhai elusennau'n masnachu fel ffordd o godi cronfeydd neu hyrwyddo eu hamcanion. Os oes is-gwmni masnach ym mherchnogaeth lwyr gan eich elusen, bydd rhaid i chi wirio'r terfynau ar y Cymorth Rhodd y gall yr is-gwmni ei dalu drosodd i'r elusen. Rydym wedi diweddaru adran 4.5 o'n canllaw Ymddiriedolwyr, masnachu a threth (CC35) i egluro'r terfyn; rydym hefyd wedi cynnwys dolenni i ganllawiau cysylltiedig ar ystyriaethau treth, cyfrifon a'r gyfraith cwmnïau. Mae'n bwysig cymhwyso'r terfynau i unrhyw flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ebrill 2015 a phenderfynu pa gamau i'w cymryd os yw taliadau blaenorol wedi mynd dros y terfyn hwn.

### Ydy'ch manylion cyswllt wedi'u diweddaru?

Mae'n bwysig sicrhau bod y manylion cyswllt cywir gennym ar gyfer cysylltiadau a enwir eich elusen. Mae hyn yn cynnwys rhoi cyfeiriad i ni sy'n cael ei wirio'n rheolaidd a chyfeiriad e-bost cywir er mwyn i ni allu cysylltu â chi'n gyflym ac yn hawdd. Cymrwch eiliad i fewngofnodi i'n porthol ar-lein i wneud yn siŵr bod yr wybodaeth gywir gennym ar gyfer eich elusen.

Withdrawn on 20 October 2020 as it is over 2 years old.

## Deddf Elusennau (Gwarchod a Buddsoddi Cymdeithasol) 2016

Ar 16 Mawrth derbyniodd y Bil Elusennau (Gwarchod a Buddsoddi Cymdeithasol) Gydsyniad Brenhinol a'i droi'n ddeddf.

Mae rhai newidiadau yn y ddeddf newydd y bydd rhaid i bob elusen fod yn ymwybodol ohonynt:

- bydd pobl sydd wedi cyflawni troseddau arbennig wedi'u gwahardd rhag bod yn ymddiriedolwr neu gael rhai rolau mewn elusennau
- rheolau newydd mewn perthynas â chytundebau y mae elusennau'n eu llunio â chodwyr arian proffesiynol a chyfranogwyr masnachol
- gofynion newydd am yr wybodaeth sy'n ymwneud â chodi arian sydd i'w chynnwys mewn adroddiadau blynyddol elusennau mwy
- pŵer newydd i elusennau wneud buddsoddiadau cymdeithasol

Nid yw unrhyw un o'r newidiadau hyn wedi dod i rym eto. Bydd rhai yn dod i rym dros y misoedd nesaf ond ni ddisgwylir i rai ohonynt gael eu gweithredu am dros flwyddyn, gan roi digon o amser i elusennau ddeall sut y gallai'r newidiadau effeithio arnyn nhw, a chymryd unrhyw gamau y gallai fod angen eu cymryd. Gwyliwch am y rhifyn nesaf o Newyddion y Comisiwn Elusennau, dilynwch ni ar Twitter ac ewch i'n hafan i sicrhau bod gennych chi'r holl wybodaeth am y newidiadau hyn.

Mae'r ddeddf hefyd yn rhoi nifer o bwerau newydd i'r comisiwn a fydd yn cryfhau ein gallu i fynd i'r afael â'r mathau mwyaf difrifol o gamddefnydd. I lawer o elusennau ni fydd y pwerau yn cael unrhyw effaith uniongyrchol ond bydd pob elusen yn elwa o'r cynnydd mewn ffydd a hyder cyhoeddus a fydd yn deillio o reoleiddio elusennau yn well. Ymhlith pethau eraill, pan ddaw'r pwerau hyn i rym bydd y comisiwn yn gallu gwahardd unigolion anaddas rhag bod yn ymddiriedolwyr a rhoi rhybuddion swyddogol.

## Canllaw newydd i'r berthynas rhwng y cadeirydd a'r prif weithredwr

Mae Cymdeithas y Cadeiryddion wedi cynhyrchu canllaw newydd i helpu cadeiryddion i archwilio a chryfhau'r berthynas sydd ganddynt â'u Prif Swyddog Gweithredol. Mae meithrin perthynas lwyddiannus rhwng y cadeirydd a'r Prif Swyddog Gweithredol yn rhan allweddol o rôl y cadeirydd ond mae'n un sy'n heriol yn aml yn ymarferol. Mae'n hollbwysig bod cadeiryddion yn buddsoddi amser, egni ac ymdrech i'w wneud yn llwyddiant. Mae'r canllaw yn cynnig cyngor ar gyfer yr adegau hynny pan aiff pethau o'i le, gwybodaeth o waith ymchwil, ac mae'n nodi'r hyn sydd ei angen ar gamau allweddol yn y berthynas rhwng y cadeirydd a'r Prif Swyddog Gweithredol. Gall fod yn ddefnyddiol hefyd i is-gadeiryddion, ymddiriedolwyr, Prif Swyddogion Gweithredol a chynghorwyr llywodraethu. Lawrlwytho eich copi am ddim.

## Ffeilio cyfrifon yn hwyr

Ydych chi wedi ffeilio cyfrifon ein helusen eto? Wrth i hyn fynd i'r wasg nid yw **11,928 o elusennau** wedi cydymffurfio â'u holl ofynion ffeilio. Os yw incwm eich elusen yn fwy na £25,000, rhaid i'ch cyfrifon gael eu ffeilio'n ddigidol gyda'r comisiwn. Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n:

- gwirio'ch gwaith cyn ei gyflwyno i sicrhau bod yr wybodaeth gywir wedi cael ei hanfon atom
- creu, neu wneud yn siŵr eich bod chi wedi creu cyfrinair i gyrchu ein gwasanaethau ar-lein diogel
- sicrhau eich bod chi'n cofnodi incwm eich elusen mewn punnoedd cyfan, nid degolion
- cofiwch fod y blwch ticio sy'n gofyn a yw'r cyfrifon yn gymwysedig yn golygu bod **pryderon gan archwiliwr ariannol neu archwiliwr annibynnol** am rai agweddau ar y cyfrifon

Mae methu â ffeilio yn fater difrifol a gall effeithio ar eich statws fel elusen a hefyd eich enw da gyda chefnogwyr a chyllidwyr grantiau. Byddem yn annog ymddiriedolwyr i wneud eu rhan i sicrhau bod elusennau'n parhau i fod yn dryloyw a chynnal ffydd a hyder cyhoeddus mewn elusennau yn gyffredinol. Cewch gyfarwyddiadau ar sut i ffeilio yn ein canllaw 'Paratoi ffurflen flynyddol elusen'. Hoffech chi wybod a yw elusennau yn eich ardal leol chi wedi cydymffurfio? Defnyddiwch opsiwn chwilio manwl y gofrestr elusennau.

**Am gadw i fyny â'n newyddion, canllawiau a digwyddiadau? Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n ein dilyn ni ar Twitter @ChtyCommission**